Adran Cyfoeth Naturiol
Department for Natural Resources

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: SF/CS/2027/15

At: Brif Swyddogion Cynllunio

21 Medi 2015

Annwyl Gyfaill,

Rwy'n ysgrifennu i roi gwybod ichi bod fersiwn ddiwygiedig o'r Pecyn Cymorth ar gyfer Cynllunwyr wedi'i chyhoeddi. Mae'r pecyn yn cynnig methodoleg ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ar ddatblygu sail dystiolaeth gadarn er mwyn asesu'r potensial o fewn eu hardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Gall yr wybodaeth hon fod yn sail i bolisïau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel mewn cynlluniau datblygu lleol.

Bellach, mae'r pecyn cymorth yn cynnwys adran newydd ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol i asesu'r potensial ar gyfer datblygu ffermydd solar yn eu hardaloedd. Mae'r pecyn diwygiedig hefyd yn rhoi cyngor newydd ar sut i ddefnyddio asesiadau o ynni adnewyddadwy i greu polisïau sy'n llywio'r broses o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn briodol. Mae'r pecyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/toolkitforplanners/?skip=1&lang=cy

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y posibilrwydd o gynyddu'r Hawliau Datblygu a Ganiateir ar gyfer ynni solar annomestig. Bydd hyn o fudd i'r gymuned fusnes gan ganiatáu iddynt leihau eu costau ynni, a chan gynyddu ar yr un pryd yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir. Rydym am sicrhau bod hyn yn digwydd yn y ffordd fwyaf effeithlon a byddwn felly yn comisiynu gwaith ymchwil er mwyn gwneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau i Hawliau Datblygu a Ganiateir yn briodol i Gymru.

Yn gywir,

Neil Hemington
Prif Gynlluniwr
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Adran Cyfoeth Naturiol

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Planning Directorate • Cyfarwyddiaeth Cynllunio
Cathays Park • Parc Cathays
Cardiff • Caerdydd
CF10 3NQ

English Inquiry Line• Llinell Ymholiadau Saesneg 0845 010 3300
Welsh Inquiry Line • Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Planning.Directorate@Wales.GSI.Gov.UK
Planning.Directorate@Cymru.GSI.Gov.UK